Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Awdurdodau Cymreig Datganoledig) (Diwygio) 2025** |
| **DYDDIAD** | **08 Ionawr 2026** |
| **GAN** | **Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig** |

Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am Faterion Cyfansoddiadol, rwy'n rhoi diweddariad i aelodau ar ddiwygiadau a wnaed i Atodlen 9A (Awdurdodau Cymreig Datganoledig) i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gan **Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Awdurdodau Cymreig Datganoledig) (Diwygio) 2025** (“y Gorchymyn”).

Mae'r Gorchymyn yn dileu'r cyfeiriad at “Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol” neu “The Independent Remuneration Panel for Wales” ac yn rhoi “Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru” neu “The Democracy and Boundary Commission Cymru” yn lle “Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru” neu “The Local Democracy and Boundary Commission for Wales”.

Mae'r diwygiadau hyn yn ganlyniadol i ddarpariaethau yn Neddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 a Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

Gwnaed y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gan Ei Fawrhydi y Brenin ar 10 Rhagfyr ac fe'i gosodwyd gerbron y ddau Dŷ yn Senedd y DU gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar 17 Rhagfyr.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.